Llwybrau Coedwig
Forest Trails

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Coed Gwent Wentwood

// Dihangwch i dawelwch y goedwig hynafol fwyaf yng Nghymru

Escape to the tranquillity of the largest area of ancient woodland in Wales



Cymru Wales

COED CADW WOODLAND TRUST

## Coed Gwent heddiw

**Mae Coed Gwent yn parhau i fod yn hafan i fywyd gwyllt. Yn y gwanwyn gallwch grwydro ar hyd y llwybrau drwy garped o glychau'r gog a gwrandewch ar yr adar yn trydar eu cân.**

Gellir clywed y troellwr mawr yn aml, ac os ydych yn effro efallai cewch gipolwg ar bathew, gwiber, madfall neu garw. Gallwch weld morgrug y coed hefyd yng Nghoed Gwent, ac er eu bod yn bethau bach mae ganddynt bresenoldeb mawr. Chwiliwch am eu nythod (twmpathau ar y ddaear) sy'n sefyll 3-4 troedfedd uwchben y ddaear – er ceisiwch osgoi'r temtasiwn i eistedd arnynt!

## Today at Wentwood

**Wentwood remains a haven for wildlife. In spring you can wander along the paths surrounded by carpets of bluebells and listen to a harmony of bird song.**

The nightjar can often be heard, and if you stay alert you might be able to spot a dormouse, adder, lizard or deer. The wood ant can also be found at Wentwood, though very tiny it has a big presence. Look out for their nests (mounds on the ground) that stand 3-4 ft high – though don't be tempted to sit on them!






COED CADW WOODLAND TRUST

I ddysgu mwy am Goed Cadw ewch i **www.coedcadw.org.uk/cymru**
For more information about the Woodland Trust go to **ww.woodlantrust.org.uk/wales**
cymru/wales: **0292 0027732**

Cyfoeth Naturiol Cymru Natural Resources Wales

**cyfoethnaturiol.cymru**
**naturalresources.wales**
**0300 065 3000**

Noddir gan Lywodraeth Cymru / Sponsored by Welsh Government

monmouthshire sir fynwy

Newport City Council / Cyngor Dinas Casnewydd

Os hoffech yr wybodaeth hon mewn fformat arall, cysylltwch â ni: Ffôn: 0300 065 3000
Ebost: ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

If you would like this information in an alternative format, please contact us: Phone: 0300 065 3000
Email: enquiries@naturalresourceswales.gov.uk

Llun clawr/Cover photo: © FreespiritNature / Alamy Stock Photo

NRWRC0065



*Ewig lwyd*
*Fallow deer*

## Coedwig gyda hanes hir

**Mae gan Goed Gwent hanes maith a diddorol sy'n pontio dros 1,000 o flynyddoedd.**

Roedd unwaith yn faes hela ar gyfer Castell Cas-gwent, ac roedd ei breswylwyr yn gwneud y defnydd gorau posibl o ehangder y tir ar gyfer eu helfeydd rhwysgfawr. Mae llwybrau hynafol, aelwydydd golosg ac olion hen felin hefyd yn rhoi rhyw syniad i ni o'i ddefnydd diwydiannol yn y gorffennol.

Coed Gwent oedd un o'r coedwigoedd cyntaf yn y DU lle plannwyd coed coniffer cyn belled yn ôl â'r 1700au. Er hynny, ac yn enwedig yn ystod y ddau ryfel byd, cafodd llawer o'r coetir brodorol ei gwympo i'w ddefnyddio yn bren. Ailblannwyd yr ardaloedd hyn gyda choed coniffer nad oeddent yn frodorol ond roeddent yn tyfu'n gyflym er mwyn darparu adnodd pren ar gyfer y genedl.

## Woodland with an ancient pedigree

**Wentwood has a long and illustrious history spanning over 1,000 years.**

It was once the hunting preserve for Chepstow Castle, whose inhabitants really made the most of the expansive land for their grand hunts. Ancient tracks, charcoal hearths and remains of an old mill also give us some idea of its past industrial use.

Wentwood was one of the first woods in the UK to be planted with conifer trees as far back as the 1700s. Since then, and especially during the first and second world wars, much of the remaining native woodland was felled for timber. These areas were largely replanted with quickgrowing non-native conifer trees to provide a timber resource for the nation.

## Coed Gwent – dyfodol mwy naturiol

**Rydym yn adfer Coed Gwent yn ôl i fod yn goetir llydanddail naturiol.**

Mae hwn yn gynllun uchelgeisiol a hirdymor, ond mae natur ar ein hochr. Fe dorrwyd y rhan fwyaf o'r coed gwreiddiol yn ystod canol yr 20fed ganrif er mwyn cael lle i dyfu coed conwydd, gellid eu cynhyrchu'n gyflym ar gyfer y farchnad bren. Fodd bynnag, drwy waredu'r coed hyn yn raddol, mae hadau'r coed llydanddail sydd ar ôl a phlanhigion coetir eraill yn dechrau tyfu, wrth i fwy o olau gyrraedd llawr y goedwig.

## Wentwood – a more natural future

**We are restoring Wentwood to native broadleaved woodland**

This is a long-term and ambitious plan, but nature is on our side. Most of the original native trees were felled during the middle of the 20th century to make way for fast-growing, timber-producing conifers. However, by gradually removing these trees, the seeds from the remaining broadleaved trees and other woodland plants start to grow as more light reaches the woodland floor.



Foto Photo: WTPL / Brian Aldrich

## Cyfleusterau

**Mae llawer o feysydd parcio i'w cael sy'n cynnig man cychwyn delfrydol i'ch ymweliad i fforio yng ngwahanol rannau o Goed Gwent.**

Mae lle i barcio bysus ym maes parcio Foresters' Oaks. Ar gyfer y rhai hynny ohonoch sy'n dewis seiclo, mae'r ffyrdd sy'n arwain at Goed Gwent yn lonydd gwledig tawel.

Mae meinciau picnic, glaswelltir agored ac ardal BBQ ym Maes Parcio Foresters' Oaks fel y gallwch dreulio diwrnod go iawn yn fforio yn y goedwig.

Mae'r ardal bicnic yn edrych allan dros y gronfa ddŵr hardd ac mae golygfan arbennig dros Sianel Bryste yno.

## Facilities

**There are several car parks that provide an ideal base to start your visit and explore different parts of Wentwood.**

Coach parking is available at Foresters' Oaks car park. For those of you who prefer to cycle, the roads leading to Wentwood are quiet country lanes.

Foresters' Oaks car park offers picnic benches, open grassland and a BBQ area so you can really make a day of exploring the wood.


The picnic area overlooks the beautiful reservoir and provides a great view point for the distant Bristol Channel.



Foto Photo: WTPL / Gerald Cubitt



Foto Photo: WTPL / Steven Kind photo



# Coed Gwent
# Wentwood

## Croeso i Goed Gwent

**Gyda dros 1,000 hectar o goetir di-dor, Coed Gwent yw'r man delfrydol i'w fforio ar droed, ar feic neu hyd yn oed ar gefn ceffyl. Mae'r llwybrau troellog yn eich arwain yn hamddenol drwy'r coed heddychlon gan eich tywys ar daith wahanol ar bob ymweliad.**

Mae Coed Gwent yn lle gwych i fynd â'ch teulu. Mae llawer o weithgareddau y gallwch eu gwneud p'un ai fforio'n dawel am fywyd gwyllt, adeiladu llochesi neu hyd yn oed drefnu eich helfa drysor eich hun. Am syniadau llawn hwyl ewch i **www.naturedetectives.org.uk**.


Dilynwch yr arwyddion marcio neu defnyddiwch y map a geir yn y daflen hon i'ch arwain drwy'r ardal hon o brydferthwch naturiol a hanesyddol. Ond peidiwch â theimlo eich bod yn gorfod dilyn yn ôl traed eraill, pam na wnewch chi ddilyn eich llwybr eich hun? Cadwch lygaid barcud am y Dderwen Gyrliog.

## Welcome to Wentwood

**With over 1000 hectares of continuous woodland, Wentwood is the perfect place to explore on foot, bicycle or even horseback. The winding paths gently lead you through the tranquil woods taking you on a new journey every visit.**

Wentwood is a great place to take the family. There are lots of activities you can do whether quietly exploring looking for wildlife, building shelters or even organising your own treasure hunt. For fun ideas visit **www.naturedetectives.org.uk**.

Follow the marker posts or use the map provided in this leaflet to guide you through this area of natural and historical beauty. But don't feel like you have to follow in the footsteps of others, why not make your own route? Look out for the Curley Oak.













THE QUEEN'S COMMONWEALTH CANOPY

## Cydnabyddiaeth frenhinol i Goed Gwent!

**Mae ein prosiect i adfer coetir hynafol yma yng Nghoed Gwent wedi derbyn achrediad dan fenter Canopi Cymanwlad y Frenhines (QCC).**

Bydd y fenter hon yn creu rhwydwaith o brosiectau cadwraeth coedwigoedd ar draws y Gymanwlad, i nodi gwasanaeth Ei Mawrhydi'r Frenhines i'r Gymanwlad, gan warchod coedwigoedd brodorol er lles cenedlaethau'r dyfodol a helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd.

Mae'n ofynnol i brosiectau QCC arddangos eu bod yn defnyddio arferion cadwraethol cynaliadwy ym maes coedwigaeth a'u bod yn annog pobl leol i gymryd rhan yn y gwaith o reoli'r prosiect.

## Royal recognition for Wentwood!

**Our ancient woodland restoration project here in Wentwood has been accredited under The Queen's Commonwealth Canopy (QCC) initiative.**

This initiative will create a pan-Commonwealth network of forest conservation projects, marking Her Majesty The Queen's service to the Commonwealth, conserving indigenous forests for future generations and helping to address climate change.

QCC projects are required to demonstrate sustainable forest conservation practices and encourage the participation of local people in the management of the project.